OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 767

## Gorchymyn Network Rail (Pont Briwet) (Caffael Tir) 2013

## RHAN 2

CAFFAEL A MEDDU AR DIR

*Pwerau caffael*

**Y pŵer i gaffael tir**

**3.**—(1) Caiff Network Rail gaffael drwy orfodaeth gymaint o dir y Gorchymyn a ddangosir ar blan y tir ac a ddisgrifir yn y cyfeirlyfr ag y bo ei angen ar gyfer y gweithfeydd awdurdodedig neu mewn cysylltiad â hwy, a chaiff ddefnyddio unrhyw dir y mae'n ei gaffael drwy hynny at y dibenion hynny neu ar gyfer unrhyw ddibenion ategol eraill i'r ymgymeriad.

(2) Mae'r erthygl hon yn ddarostyngedig i erthygl 7 (hawliau newydd yn unig i'w caffael ar rai tiroedd penodol), paragraff (8) o erthygl 8 (defnyddio tir dros dro i adeiladu gweithfeydd) ac erthygl 21 (arbediad ar gyfer y Goron).

**Cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 1965**

**4.**—(1) Mae Rhan 1 o Ddeddf 1965, i'r graddau nad yw wedi ei haddasu gan ddarpariaethau'r Gorchymyn hwn nac yn anghyson â hwy, yn gymwys i gaffael tir o dan y Gorchymyn hwn—

(a) fel y mae'n gymwys i brynu drwy orfodaeth y mae Deddf Caffael Tir 1981 yn gymwys iddo; a

(b) fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn orchymyn prynu gorfodol o dan y Ddeddf honno.

(2) Mae Rhan 1 o Ddeddf 1965, fel y mae wedi ei chymhwyso gan baragraff (1), yn cael effaith fel pe bai adran 4 (sy'n darparu terfyn amser ar gyfer prynu tir drwy orfodaeth) a pharagraff 3(3) o Atodlen 3 (sy'n gwneud darpariaeth ynghylch rhoi bondiau) wedi eu hepgor.

**Cymhwyso Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981**

**5.**—(1) Mae Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981(**1**) yn gymwys fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn orchymyn prynu gorfodol.

(2) Mae Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981, fel y mae wedi ei chymhwyso gan baragraff (1), yn cael effaith gyda'r addasiadau canlynol.

(3) Yn adran 3 (hysbysiadau rhagarweiniol), yn lle is-adran (1) rhodder—

"(1) Before making a declaration under section 4 in respect to any land which is subject to a compulsory purchase order the acquiring authority must include the particulars specified in subsection (3) in a notice which is—

(**1**) 1981 p. 66.

(a) given to every person with a relevant interest in the land with respect to which the declaration is to be made (other than a mortgagee who is not in possession); and

(b) published in a local newspaper circulating in the area in which the land is situated.”.

(4) Yn yr adran honno, yn is-adran (2), yn lle “(1)(b)” rhodder “(1)” ac ar ôl “given” mewnosoder “and published”.

(5) Yn yr adran honno, yn lle is-adrannau (5) a (6) rhodder—

“(5) For the purposes of this section, a person has a relevant interest in land if—

(a) that person is for the time being entitled to dispose of the fee simple of the land, whether in possession or in reversion; or

(b) that person holds, or is entitled to the rents and profits of, the land under a lease or agreement, the unexpired term of which exceeds one month.”.

(6) Yn adran 5 (y dyddiad cynharaf ar gyfer gweithredu datganiad)—

(a) yn is-adran (1), ar ôl “publication” mewnosoder “in a local newspaper circulating in the area in which the land is situated”; a

(b) hepgorer is-adran (2).

(7) Yn adran 7 (hysbysiad deongliadol i drafod telerau) yn isadran (1)(a), hepgorer y geiriau “(as modified by section 4 of the Acquisition of Land Act 1981)”.

(8) Mae cyfeiriadau at Ddeddf 1965 i'w dehongli fel cyfeiriadau at y Ddeddf honno fel y'i cymhwysir i gaffael tir o dan erthygl 3 (y pŵer i gaffael tir).

**Y pŵer i gaffael hawliau newydd**

**6.**—(1) Caiff Network Rail gaffael drwy orfodaeth y cyfryw hawddfreintiau neu hawliau eraill dros unrhyw dir yr awdurdodwyd ef i'w caffael o dan erthygl 3 (y pŵer i gaffael tir) ag y bo eu hangen at unrhyw ddiben y caniateir caffael y tir hwnnw o dan y ddarpariaeth honno, drwy eu creu yn ogystal â thrwy gaffael hawddfreintiau neu hawliau eraill sydd eisoes yn bodoli.

(2) Yn ddarostyngedig i adran 8 o Ddeddf 1965 (fel y'i hamnewidir gan baragraff 5 o Atodlen 1 (addasu deddfiadau digolledu a phrynu gorfodol ar gyfer creu hawliau newydd)), pan fo Network Rail yn caffael hawl dros dir o dan baragraff (1), nid yw'n ofynnol iddo gaffael rhagor o fuddiant yn y tir hwnnw.

(3) Mae Atodlen 1 yn cael effaith at ddibenion addasu'r deddfiadau sy'n ymwneud â digolledu a darpariaethau Deddf 1965, o ran eu cymhwyso mewn perthynas â chaffael drwy orfodaeth hawl dros dir o dan yr erthygl hon drwy greu hawl newydd.

**Hawliau newydd yn unig i'w caffael ar rai tiroedd penodol**

**7.** Yn achos tir a bennir yn Atodlen 2 (tir na chaniateir ond caffael hawliau newydd ar ei gyfer), mae pwerau Network Rail i gaffael drwy orfodaeth o dan erthygl 3(1) (y pŵer i gaffael tir) yn gyfyngedig i gaffael y cyfryw hawddfreintiau a hawliau newydd eraill yn y tir yn unol ag erthygl 6(1) (y pŵer i gaffael hawliau newydd) ag y gallai fod ei angen at ddibenion adeiladu, cynnal a chadw, amddiffyn, adnewyddu a defnyddio'r gweithfeydd awdurdodedig.

*Meddiant ar dir dros dro neu ddefnyddio tir dros dro*

**Defnyddio tir dros dro i adeiladu gweithfeydd**

**8.**—(1) Caiff Network Rail, mewn cysylltiad â chyflawni'r gweithfeydd awdurdodedig, fynd i'r canlynol a chymryd meddiant dros dro—

(a) o'r tir a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 3 (tir y caniateir cymryd meddiant dros dro ohono) at y diben a bennir mewn perthynas â'r tir yng ngholofn (3) o'r Atodlen honno sy'n ymwneud â'r gweithfeydd awdurdodedig; a

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (11), o unrhyw un o diroedd eraill y Gorchymyn na chyflwynwyd ar ei gyfer hysbysiad mynediad o dan adran 11 o Ddeddf 1965 neu na wnaed unrhyw ddatganiad o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981.

(2) Rhaid i Network Rail gyflwyno hysbysiad o'i fwriad i gael mynediad i'r tir i berchenogion a meddianwyr y tir, a hynny heb fod yn llai na 14 o ddiwrnodau cyn iddo fynd ar y tir a chymryd meddiant dros dro ohono o dan yr erthygl hon.

(3) Ni chaiff Network Rail, heb gytundeb perchenogion y tir, barhau i feddu ar unrhyw dir o dan yr erthygl hon ar ôl diwedd cyfnod o un flwyddyn sy'n cychwyn o'r dyddiad y cwblhawyd y gweithfeydd awdurdodedig.

(4) Cyn rhoi'r gorau i feddu ar dir a feddwyd ganddo dros dro o dan yr erthygl hon, rhaid i Network Rail symud pob gwaith dros dro oddi yno ac adfer y tir i safon y mae perchenogion y tir yn rhesymol fodlon â hi; ond nid yw'n ofynnol i Network Rail ailosod adeilad a symudwyd mewn cysylltiad â chyflawni'r gweithfeydd awdurdodedig.

(5) Rhaid i Network Rail ddigolledu perchenogion a meddianwyr y tir a feddiannwyd ganddo dros dro o dan yr erthygl hon am unrhyw golled neu ddifrod a achoswyd drwy arfer y pwerau a roddir mewn perthynas â'r tir gan yr erthygl hon.

(6) Mae unrhyw anghydfod o ran hawl person i gael ei ddigolledu o dan baragraff (5), neu o ran swm y digollediad, i'w benderfynu o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(7) Heb ragfarnu erthygl 19 (dim adennill ddwywaith), nid oes dim yn yr erthygl hon yn effeithio ar unrhyw rwymedigaeth i ddigolledu o dan adran 10(2) o Ddeddf 1965 neu o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â cholled neu ddifrod a achosir gan gyflawni unrhyw weithfeydd, ac eithrio colled neu ddifrod y mae digollediad yn daladwy ar eu cyfer o dan baragraff (5).

(8) Nid yw'r pwerau caffael tir drwy orfodaeth a roddir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys mewn perthynas â'r tir y cyfeirir ato ym mharagraff (1)(a) heblaw fod yn rhaid peidio ag eithrio Network Rail rhag caffael hawliau newydd dros unrhyw dir a bennir yn Atodlen 2 (tir na chaniateir ond caffael hawliau newydd ar ei gyfer).

(9) Pan fo Network Rail yn cymryd meddiant o dir o dan yr erthygl hon, nid yw'n ofynnol iddo gaffael y tir nac unrhyw fuddiant yn y tir.

(10) Mae adran 13 o Ddeddf 1965 yn gymwys i'r defnydd dros dro o dir yn unol â'r erthygl hon i'r un graddau ag y mae'n gymwys i gaffael tir o dan y Gorchymyn hwn yn rhinwedd erthygl 4(1) (cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 1965).

(11) Nid yw paragraff (1)(b) yn awdurdodi Network Rail i gymryd meddiant dros dro—

(a) o unrhyw dŷ neu ardd sy'n eiddo i dŷ; neu

(b) o unrhyw adeilad (ac eithrio tŷ) os yw wedi ei feddiannu ar y pryd.

**Defnyddio tir dros dro ar gyfer cynnal a chadw gweithfeydd**

**9.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), caiff Network Rail fynd i unrhyw dir y Gorchymyn a chymryd meddiant dros dro ohono os yw meddiant o'r fath yn rhesymol ofynnol at ddibenion cynnal

a chadw'r gweithfeydd awdurdodedig neu unrhyw weithfeydd ategol sy'n gysylltiedig â hwy, a hynny ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cynnal a chadw sy'n ymwneud ag unrhyw un o'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Nid yw paragraff (1) yn awdurdodi Network Rail i gymryd meddiant dros dro—

(a) o unrhyw dŷ neu ardd sy'n eiddo i dŷ; neu

(b) o unrhyw adeilad (ac eithrio tŷ) os yw wedi ei feddiannu ar y pryd.

(3) Rhaid i Network Rail gyflwyno hysbysiad i berchenogion a meddianwyr y tir o'i fwriad i gael mynediad i'r tir, a hynny heb fod yn llai na 28 o ddiwrnodau cyn iddo fynd ar y tir a chymryd meddiant dros dro ohono o dan yr erthygl hon.

(4) Ni chaiff Network Rail ond parhau â meddiant o'r tir o dan yr erthygl hon cyhyd ag y bo hynny'n rhesymol angenrheidiol er mwyn cyflawni'r gwaith cynnal a chadw gweithfeydd y cymerwyd meddiant o'r tir ar ei gyfer.

(5) Cyn rhoi'r gorau i feddu ar dir a feddwyd ganddo dros dro o dan yr erthygl hon, rhaid i Network Rail symud yr holl weithfeydd dros dro oddi yno ac adfer y tir i safon y mae perchenogion y tir yn rhesymol fodlon â hi.

(6) Rhaid i Network Rail ddigolledu perchenogion a meddianwyr y tir a feddwyd ganddo dros dro o dan yr erthygl hon am unrhyw golled neu ddifrod a achoswyd drwy arfer y pwerau a roddir gan yr erthygl hon mewn perthynas â'r tir.

(7) Mae unrhyw anghydfod o ran hawl person i gael ei ddigolledu o dan baragraff (6), neu o ran swm y digolllediad, i'w benderfynu o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(8) Heb ragfarnu erthygl 19 (dim adennill ddwywaith), nid oes dim yn yr erthygl hon yn effeithio ar unrhyw rwymedigaeth i ddigolledu o dan adran 10(2) o Ddeddf 1965 neu o dan unrhyw ddeddfiad arall sy'n ymwneud â cholled neu ddifrod a achosir gan gyflawni unrhyw waith, ac eithrio colled neu ddifrod y mae digollediad yn daladwy ar eu cyfer o dan baragraff (6).

(9) Pan fo Network Rail yn cymryd meddiant o dir o dan yr erthygl hon, nid yw'n ofynnol iddo gaffael y tir nac unrhyw fuddiant ynddo.

(10) Mae adran 13 o Ddeddf 1965 yn gymwys i'r defnydd dros dro o dir yn unol â'r erthygl hon i'r un graddau ag y mae'n gymwys i gaffael tir o dan y Gorchymyn hwn yn rhinwedd erthygl 4(1) (cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 1965).

(11) Yn yr erthygl hon ystyr "y cyfnod cynnal a chadw" ("*the maintenance period*") mewn perthynas â gwaith awdurdodedig yw'r cyfnod o 5 mlynedd sy'n cychwyn ar y dyddiad pryd yr agorwyd y gwaith i'w ddefnyddio.

### *Digolledu*

**Diystyru rhai buddiannau a gwelliannau penodol**

**10.**—(1) Wrth asesu'r digollediad sy'n daladwy i unrhyw berson wrth gaffael unrhyw dir oddi arno o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r tribiwnlys beidio ag ystyried—

(a) unrhyw fuddiant mewn tir; neu

(b) unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw fuddiant mewn tir oherwydd unrhyw adeilad a godwyd, unrhyw weithfeydd a gyflawnwyd neu unrhyw welliant neu addasiad a wnaed ar dir perthnasol,

os yw'r tribiwnlys wedi ei fodloni nad oedd creu'r buddiant, codi'r adeilad, cyflawni'r gweithfeydd na gwneud unrhyw welliant neu addasiad yn rhesymol angenrheidiol, ac y gwnaethpwyd hynny gyda'r bwriad o gael digollediad neu gynyddu'r digollediad.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr "tir perthnasol" ("*relevant land*") yw'r tir a gaffaelwyd oddi wrth y person o dan sylw neu unrhyw dir arall y mae'r person hwnnw yn gysylltiedig ag ef, neu yr oedd y person hwnnw'n gysylltiedig ag ef ar adeg codi'r adeilad, cyflawni'r gwaith neu wneud y gwelliant neu'r addasiad, boed hynny'n gysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol.

### Gwrth-gyfrif am gynnydd yng ngwerth tir a gedwir

**11.**—(1) Wrth asesu'r digolllediad sy'n daladwy i unrhyw berson mewn perthynas â chaffael unrhyw dir (gan gynnwys yr isbridd neu'r gofod awyr) oddi wrth y person hwnnw o dan y Gorchymyn hwn, rhaid i'r tribiwnlys wrth-gyfrif, yn erbyn gwerth y tir a gaffaelwyd felly, unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sydd ym mherchenogaeth y person hwnnw yn yr un modd a ddaw yn eiddo i'r person hwnnw o ganlyniad i adeiladu'r gweithfeydd awdurdodedig.

(2) Wrth asesu'r digolledied sy'n daladwy i unrhyw berson mewn perthynas â chaffael oddi wrth y person hwnnw unrhyw hawliau newydd dros dir (gan gynnwys yr isbridd neu'r gofod awyr) o dan erthygl 6 (y pŵer i gaffael hawliau newydd), rhaid i'r tribiwnlys wrth-gyfrif yn erbyn gwerth yr hawliau a gaffaelwyd felly—

(a) unrhyw gynnydd yng ngwerth y tir y caffaelwyd yr hawliau newydd drosto; a

(b) unrhyw gynnydd yng ngwerth unrhyw dir cyffiniol neu gyfagos sydd ym mherchenogaeth y person hwnnw yn yr un modd,

a ddaw yn eiddo i'r person hwnnw o ganlyniad i adeiladu'r gweithfeydd awdurdodedig.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (1) a (2), mae Deddf 1961 yn cael effaith fel pe bai'r Gorchymyn hwn yn ddeddfiad lleol at ddibenion y Ddeddf honno.

*Atodol*

### Caffael rhan o rai eiddo penodol

**12.**—(1) Yr erthygl hon sy'n gymwys yn hytrach nag adran 8(1) o Ddeddf 1965 (fel y'i cymhwysir gan erthygl 4 (cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 1965)) yn unrhyw achos—

(a) pan gyflwynir hysbysiad i drafod telerau i berson ("y perchennog") o dan Ddeddf 1965 (fel y'i cymhwysir gan erthygl 4) mewn perthynas â thir sydd wedi ei ffurfio gan ddim ond rhan o dŷ, adeilad neu ffatri neu o dir sydd wedi ei ffurfio gan dŷ â pharc neu ardd ("y tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau") a

(b) pan gyflwynir copi o'r erthygl hon i'r perchennog gyda'r hysbysiad i drafod telerau.

(2) Mewn achos o'r fath, caiff y perchennog, o fewn y cyfnod o 21 o ddiwrnodau sy'n cychwyn ar y diwrnod pryd y cyflwynir yr hysbysiad, gyflwyno gwrth-hysbysiad i Network Rail yn gwrthwynebu gwerthu'r tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau sy'n datgan bod y perchennog yn fodlon ac yn gallu gwerthu'r cyfan ("y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad").

(3) Os na chyflwynir gwrth-hysbysiad o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, mae'n ofynnol i'r perchennog werthu'r tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau.

(4) Os cyflwynir gwrth-hysbysiad o'r fath o fewn y cyfnod hwnnw, bydd y mater p'un ai yw'n ofynnol i'r perchennog werthu dim ond y tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau yn cael ei atgyfeirio i'r tribiwnlys, oni bai fod Network Rail yn cytuno i gymryd y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad.

(5) Os bydd y tribiwnlys, ar adeg atgyfeiriad o'r fath, yn penderfynu y gellir cymryd y tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau—

(a) heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad; neu

(b) yn achos rhan o dir sy'n ffurfio tŷ â pharc neu ardd, heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad a heb effeithio'n ddifrifol ar amwynder a chyfleustra'r tŷ,

mae'n ofynnol i'r perchennog werthu'r tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau.

(6) Os bydd y tribiwnlys, ar adeg atgyfeiriad o'r fath, yn penderfynu mai rhan yn unig y gellir ei chymryd o'r tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau—

(a) heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad; neu

(b) yn achos rhan o dir sydd wedi ei ffurfio gan dŷ â pharc neu ardd, heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad a heb effeithio'n ddifrifol ar amwynder a chyfleustra'r tŷ,

bernir bod yr hysbysiad i drafod telerau yn hysbysiad i drafod telerau ar gyfer y rhan honno.

(7) Os bydd y tribiwnlys, ar adeg atgyfeiriad o'r fath, yn penderfynu—

(a) na ellir cymryd y tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad; ond

(b) bod y niwed sylweddol wedi ei gyfyngu i ran o'r tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad,

bernir bod yr hysbysiad i drafod telerau yn hysbysiad i drafod telerau ar gyfer y tir y mae'r niwed sylweddol wedi ei gyfyngu iddo, yn ogystal â'r tir sydd eisoes yn destun yr hysbysiad, boed y tir ychwanegol yn dir y mae Network Rail wedi ei awdurdodi i'w gaffael drwy orfodaeth o dan y Gorchymyn hwn neu beidio.

(8) Os bydd Network Rail yn cytuno i gymryd y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad neu os bydd y tribiwnlys yn penderfynu—

(a) na ellir cymryd dim o'r tir sy'n destun yr hysbysiad i drafod telerau heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad neu, yn ôl y digwydd, heb niwed sylweddol i weddill y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad a heb effeithio'n ddifrifol ar amwynder a chyfleustra'r tŷ; a

(b) nad yw'r niwed sylweddol wedi ei gyfyngu i ran o'r tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad,

bernir bod yr hysbysiad i drafod telerau yn hysbysiad i drafod telerau ar gyfer y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad, boed y cyfan o'r tir hwnnw yn dir y mae Network Rail wedi ei awdurdodi i'w gaffael drwy orfodaeth o dan y Gorchymyn hwn neu beidio.

(9) Mewn unrhyw achos pan fernir, yn rhinwedd penderfyniad gan y tribiwnlys o dan yr erthygl hon, fod hysbysiad i drafod telerau yn hysbysiad i drafod telerau am lai o dir neu ragor o dir nag a bennir yn yr hysbysiad, caiff Network Rail dynnu'n ôl yr hysbysiad i drafod telerau o fewn y cyfnod o 6 wythnos gan gychwyn ar y diwrnod pryd y gwneir y penderfyniad; ac os yw'n gwneud hynny rhaid iddo ddigolledu'r perchennog am unrhyw golled neu draul a wnaed i'r perchennog drwy roi'r hysbysiad a'i dynnu'n ôl, a'r tribiwnlys sydd i benderfynu ar hynny yn achos anghydfod.

(10) Pan fo'n ofynnol i'r perchennog, o dan yr erthygl hon, werthu dim ond rhan o dŷ, adeilad neu ffatri neu ran o dir sydd wedi ei ffurfio gan dŷ â pharc neu ardd, rhaid i Network Rail ddigolledu'r perchennog am unrhyw golled a ddioddefodd y perchennog oherwydd hollti'r rhan honno yn ogystal â gwerth y buddiant a gaffaelwyd.

## Tir Comin

**13.**—(1) Mae pob hawl comin dros y tir a ddangosir â rhifau 9 a 10 ar blan y tir wedi eu diddymu, ac mae pob hawl mynediad i'r cyhoedd dros y tir hwnnw'n dod i ben ar y dyddiad pryd y mae Network Rail yn ei gaffael.

(2) Mae pob hawl comin a phob hawl mynediad i'r cyhoedd dros dir comin y mae Network Rail yn cymryd meddiant dros dro ohono o dan y Gorchymyn hwn wedi eu hatal ac nid oes modd eu gorfodi cyhyd ag y bo Network Rail yn parhau â meddiant cyfreithlon o'r tir.

(3) Mae gan unrhyw berson sy'n dioddef colled oherwydd diddymu neu atal dros dro unrhyw hawl comin o dan yr erthygl hon yr hawl i gael digolllediad sydd i'w benderfynu, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

### Diddymu neu atal hawliau preifat

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae pob hawl preifat dros y tir a ddangosir â'r rhifau 1, 1a, 1b, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10 a 12 ar blan y tir wedi eu diddymu—

(a) o'r dyddiad pryd y caffaelwyd y tir gan Network Rail, boed hynny drwy orfodaeth neu drwy gytundeb; neu

(b) ar y dyddiad mynediad ar y tir gan Network Rail o dan adran 11(1) o Ddeddf 1965,

p'un bynnag sydd gynharaf.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae pob hawl preifat dros y tir y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) neu a restrir yn Atodlen 2 (tir na chaniateir ond caffael hawliau newydd ar ei gyfer) wedi eu diddymu i'r graddau y byddai eu parhad yn anghyson ag arfer hawliau a awdurdodir i'w caffael o dan y Gorchymyn hwn—

(a) o'r dyddiad pryd y mae Network Rail yn eu caffael, boed hynny drwy orfodaeth neu drwy gytundeb; neu

(b) ar y dyddiad mynediad ar y tir gan Network Rail o dan adran 11(1) o Ddeddf 1965 yn unol â'r hawl,

p'un bynnag sydd gynharaf.

(3) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae pob hawl breifat dros unrhyw dir y Gorchymyn sy'n eiddo i Network Rail (ac eithrio'r tir a bennir yn Atodlen 2 neu Atodlen 3 (tir y caniateir cymryd meddiant dros dro ohono)) ac sy'n ofynnol at ddibenion y Gorchymyn hwn yn cael eu diddymu ar adeg perchnogi'r tir at unrhyw un o'r dibenion hynny gan Network Rail.

(4) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r erthygl hon, mae pob hawl breifat dros dir y mae Network Rail yn cymryd meddiant dros dro ohono o dan y Gorchymyn hwn wedi eu hatal ac nid oes modd eu gorfodi cyhyd ag y bo Network Rail yn parhau â meddiant cyfreithlon o'r tir.

(5) Mae gan unrhyw berson sy'n dioddef colled oherwydd diddymu neu atal unrhyw hawl breifat o dan yr erthygl hon yr hawl i gael digollediad sydd i'w benderfynu, yn achos anghydfod, o dan Ran 1 o Ddeddf 1961.

(6) Nid yw'r erthygl hon yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw hawl tramwy y mae adran 271 neu 272 o Ddeddf 1990 (diddymu hawliau ymgymerwyr statudol, etc.) yn gymwys iddynt.

(7) Mae paragraffau (1), (2), (3) a (4) yn cael effaith, yn ddarostyngedig i—

(a) unrhyw hysbysiad a roddir gan Network Rail cyn cwblhau'r broses o gaffael y tir, cyn i Network Rail ei berchnogi, cyn i Network Rail fynd arno neu cyn i Network Rail gymryd meddiant dros dro ohono nad oes un neu ragor o'r paragraffau hynny neu nad yw'r holl baragraffau hynny yn gymwys i unrhyw hawl tramwy a bennir yn yr hysbysiad; a

(b) unrhyw gytundeb sy'n cyfeirio at yr erthygl hon (boed wedi ei wneud cyn neu ar ôl unrhyw un o'r digwyddiadau a grybwyllir yn is-baragraff (a) a chyn neu ar ôl i'r Gorchymyn hwn ddod i rym) rhwng Network Rail a'r person y mae'r hawl tramwy dan sylw wedi ei freinio ynddo neu'n perthyn iddo.

(8) Os mynegir bod unrhyw gytundeb o'r fath fel a grybwyllir ym mharagraff (7)(b) yn cael effaith hefyd er budd y rhai y mae eu teitl yn deillio o'r person neu o dan y person hwnnw y mae'r hawl tramwy dan sylw wedi ei breinio ynddo neu y mae'n berchennog arni, mae'n effeithiol mewn perthynas â'r personau y mae'r cyfryw deitl ganddynt, boed y deilliodd y teitl cyn neu ar ôl gwneud y cytundeb.

(9) Nid yw cyfeiriad yn yr erthygl hon at hawliau preifat dros dir yn cynnwys hawliau comin, ond mae'n cynnwys cyfeiriad at unrhyw ymddiriedolaethau neu nodweddion y mae'r tir yn ddarostyngedig iddynt.

### Terfyn amser ar gyfer arfer pwerau caffael

**15.**—(1) Ar ôl diwedd y cyfnod o 5 mlynedd sy'n cychwyn ar y diwrnod pryd y daw'r Gorchymyn hwn i rym—

(a) nid oes unrhyw hysbysiad i drafod telerau i'w gyflwyno o dan Ran 1 o Ddeddf 1965 fel y'i cymhwysir i gaffael tir gan erthygl 4 (cymhwyso Rhan 1 o Ddeddf 1965); a

(b) nid oes unrhyw ddatganiad i'w weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981(**2**) fel y'i cymhwysir gan erthygl 5 (cymhwyso Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981).

(2) Mae'r pwerau a roddir gan erthygl 8 (defnyddio tir dros dro ar gyfer adeiladu gweithfeydd) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (1), ond nid oes dim yn y paragraff hwn yn rhwystro Network Rail rhag parhau â meddiant o'r tir ar ôl diwedd y cyfnod hwnnw, os aethpwyd i'r tir hwnnw a chymryd meddiant ohono cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(**2**) 1981 p. 66.